monmouthshire
sir fynwy

Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2016

### Hysbysiad o gyfarfod:

# Cyngor Sir

### Dydd Iau, 1af Rhagfyr, 2016 at 2.00 pm,
### Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA

## AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Adroddiad y Cadeirydd ac unrhyw ddeisebau sydd wedi eu derbyn** | 1 - 2 |
| 3. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 4. | **Fforwm Agored i'r Cyhoedd** | |
| 4.1. | **Cwestiwn gan Mr. J. Thurston i'r Cynghorydd Sir P. Fox**<br><br>"A fydd yn cefnogi cwblhad y llwybr cerdded a beicio ar hyd yr hen reilffordd yng Nghwm Clydach; a fydd yn defnyddio ei swydd i gychwyn deialog rhwng Cyngor Sir Fynwy, Llywodraeth Cymru a thirfeddianwyr i geisio cael datrysiad cyflym yn ymwneud â'r 700 metr o'r llwybr sy'n weddill; ac adrodd yn ôl i'r aelodau?" | |
| 4.2. | **Canolfan Cyngor ar Bopeth Cyngor Sir Fynwy – Diweddariad ar yr Adroddiad Blynyddol** | 3 - 24 |
| 5. | **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed o Hydref 2016** | 25 - 32 |
| 6. | **Nodi rhestr camau gweithredu'r cyfarfod diwethaf** | 33 - 34 |
| 7. | **Derbyn cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democratig ar y 17eg o Hydref 2016** | 35 - 40 |

| | | |
|---|---|---|
| **8.** | **Rhestr o Gynigion** | |
| **8.1.** | **Cynnig gan y Cynghorydd Sir R.J.W. Greenland**<br><br>Mae'r ailbrisiad diweddar a gynigiwyd ar gyfer cyfraddau annomestig (NNDR – cyfraddau busnes) wedi arwain at gynnydd brawychus i fusnesau yn Sir Fynwy.<br><br>Mae 65% o fusnesau yn y Sir wedi gweld cynnydd yn eu cyfraddau drafft gyda nifer yn cynyddu mwy na 200%. Yn ymarferol, golyga hyn, os caiff y cynigion eu cadarnhau, bod rhai busnesau yn wynebu cynnydd o ddegau o filoedd o bunnoedd y flwyddyn nesaf. Ymddengys bod patrwm o siroedd gwledig yn wynebu cynnydd tra bod cyfraddau'r trefi a dinasoedd mwy yn gostwng. Gan fod y system yn seiliedig ar werthoedd rhentu tybiannol, ymddengys yn annhebygol bod y newid yng ngwerthoedd rhentu adeiladau busnes rhwng 2010 a 2015 yn adlewyrchu'r cynnydd yng ngwerthoedd trethiannol a gynigir ar gyfer rhai o fusnesau Sir Fynwy.<br><br>Os nad ydym am herio'r ailbrisiad hwn, gallai olygu bod rhai o'n prif fasnachwyr a busnesau lletygarwch yn benodol yn methu parhau i fasnachu.<br><br>Os yw busnesau yn cael eu gorfodi i dalu cynnydd mawr yn seiliedig ar yr ailbrisiad hwn, wrth iddynt ddisgwyl am ganlyniadau apeliadau, gallai problemau llif arian difrifol peryglu dyfodol rhai ohonynt. Ar y lleiaf, anogwn Lywodraeth Cymru i beidio â gorfodi'r cynnydd cyn derbyn canlyniadau apeliadau.<br><br>Mae hefyd yn bryder i'r Cyngor hwn, tra bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun ponti ar gyfer busnesau bychain wedi'u heffeithio gan y cynnydd, nid yw wedi gwneud yr un fath ar gyfer busnesau mwy, a fydd yn teimlo'r effaith yn fwy. Rydym yn galw am drefniadau pontio cydymdeimladol ar gyfer yr holl fusnesau.<br><br>Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i osod neu ohirio'r cynigion hyn. Gan ystyried y pryder a fynegwyd gan y Cyngor hwn a nifer o fusnesau yn Sir Fynwy, fe anogwn Lywodraeth Cymru i ohirio'r cynigion drafft hyn i ganiatáu amser i adolygu'r fethodoleg yn drylwyr ac ystyried canlyniadau'r ailbrisiad hwn. | |
| **8.2.** | **Cynnig gan y Cynghorydd Sir A. Easson**<br><br>Fy nghanfyddiad yw bod Sir Fynwy yn cael ei ystyried yn Awdurdod Sinderela mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer y System Metro o fewn Rhanbarth y Ddinas. Cynigaf felly bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar y ffaith bod Sir Fynwy yn bodoli ac yn fwy na dim ond smotyn ar fap De Ddwyrain Cymru. Ar ben hynny, bod ein Harweinydd, ac aelodau perthnasol o'r Cabinet sy'n rhan o'r Awdurdod Cyfunol ehangach sy'n rhoi llais cryfach i gryfhau ein presenoldeb – ymddengys bod hyn ar goll. | |
| **9.** | **Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid** | |
| **9.1.** | **Cynnig i adolygu'r polisi ar Ddarpariaeth Refeniw Isafswm (MRP) mewn perthynas â Benthyca a Gefnogir o 2016/17 ymlaen** | 41 - 66 |

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | **Adroddiad y Pennaeth Cynllunio, Tai a Llunio Lleoedd** | |
| **10.1.** | **Cymdeithas Tai Sir Fynwy – Cais i Wahanu Costau Gwasanaethau** | 67 - 78 |
| **11.** | **Adroddiad y Pennaeth Democratiaeth, Ymrwymiad a Gwella** | |
| **11.1.** | **Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc** | 79 - 130 |
| **12.** | **Cwestiynau gan Aelodau** | |
| **12.1.** | **O'r Cynghorydd Sir A. Easson i'r Cynghorydd Sir E. J. Hacket Pain**<br><br>Mae dwy ysgol yn Sir Fynwy wedi cofrestru i dderbyn cefnogaeth Adnoddau Dynol annibynnol. A ydych chi, fel yr Aelod o'r Cabinet dros addysg, yn cefnogi'r gweithrediadau hyn ac a oes gennych chi farn bendant am unrhyw ysgolion eraill y gallai fod yn bwriadu cyflogi darparwyr Adnoddau Dynol allanol? | |

**Paul Matthews**

**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

| | |
|---|---|
| Cynghorwyr Sir: | D. Batrouni |
| | J. Prosser |
| | D. Blakebrough |
| | M. Powell |
| | V. Smith |
| | G. Burrows |
| | R. Chapman |
| | P. Clarke |
| | J. Crook |
| | D. Dovey |
| | G. Down |
| | A. Easson |
| | D. Edwards |
| | R. Edwards |
| | D. Evans |
| | P. Farley |
| | P.A. Fox |
| | J. George |
| | R.J.W. Greenland |
| | L. Guppy |
| | E. Hacket Pain |
| | R. Harris |
| | B. Hayward |
| | M. Hickman |
| | J. Higginson |
| | P.A.D. Hobson |
| | G. Howard |
| | S. Howarth |
| | D. Jones |
| | P. Jones |
| | S. Jones |
| | S.B. Jones |
| | P. Jordan |
| | J. Marshall |
| | P. Murphy |
| | B. Strong |
| | F. Taylor |
| | A. Watts |
| | P. Watts |
| | A. Webb |
| | S. White |
| | K. Williams |
| | A. Wintle |

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Cymunedau Cynaliadwy a Chryf

**<u>Canlyniadau y gweithiwn i'w cyflawni</u>**

**Neb yn cael ei adael ar ôl**

- Gall pobl hŷn fyw bywyd da
- Pobl â mynediad i dai addas a fforddiadwy
- Pobl â mynediad a symudedd da

**Pobl yn hyderus, galluog ac yn cymryd rhan**

- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau ddim yn effeithio ar fywydau pobl
- Teuluoedd yn cael eu cefnogi
- Pobl yn teimlo'n ddiogel

**Ein sir yn ffynnu**

- Busnes a menter
- Pobl â mynediad i ddysgu ymarferol a hyblyg
- Pobl yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd

**<u>Ein blaenoriaethau</u>**

- Ysgolion
- Diogelu pobl agored i niwed
- Cefnogi busnes a chreu swyddi
- Cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol

**<u>Ein gwerthoedd</u>**

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.